Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

## 2024 Rhif 875 (Cy. 138)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# Gorchymyn Cod Ymarfer y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru a'r Cod Ymarfer Diwygiedig (Swyddogaethau Cyffredinol) (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 1 Medi 2024 fel y diwrnod y daw'r Codau Ymarfer a restrir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn ("y Codau") i rym.

Dyroddodd Gweinidogion Cymru y Codau o dan adran 145(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") ar 24 Gorffennaf 2024.

Mae adran 145(3) o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol sydd wedi eu cynnwys mewn cod a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd ynddo.

Mae Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) ar ei ffurf ddiwygiedig yn disodli Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) a ddyroddwyd ar 2 Tachwedd 2015.

Mae'r Codau ar gael ar-lein ar www.llyw.cymru neu gellir cael copi wedi ei argraffu oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 875 (Cy. 138)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Cod Ymarfer y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru a'r Cod Ymarfer Diwygiedig (Swyddogaethau Cyffredinol) (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2024

*Gwnaed* *27 Awst 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 146(4)(b) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**) ("Deddf 2014"), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Fel sy'n ofynnol gan adran 146(1) o Ddeddf 2014, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy ynghylch drafft o'r Codau a restrir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn ("y Codau").

Yn unol ag adran 146(2) o Ddeddf 2014, gosodwyd y Codau drafft gerbron Senedd Cymru(**2**) ar 11 Mehefin 2024.

Yn unol ag adran 146(3) o Ddeddf 2014, o fewn cyfnod o 40 niwrnod ni phenderfynodd Senedd Cymru beidio â chymeradwyo'r Codau drafft, a dyroddwyd y Codau ar eu ffurf ddrafft.

---

(**1**) 2014 dccc 4 ("Deddf 2014").
(**2**) Mae unrhyw gyfeiriad yn Neddf 2014 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi a dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cod Ymarfer y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru a'r Cod Ymarfer Diwygiedig (Swyddogaethau Cyffredinol) (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2024.

**Y Diwrnod Penodedig**

**2.** 1 Medi 2024 yw'r diwrnod penodedig pan ddaw'r Codau a ganlyn i rym—

(a) Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer, a

(b) Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol).

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
27 Awst 2024